

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr Cenedlaethol 2018-19

Sicrhau bod Trais yn erbyn Menywod, Cam- drin Domestig a Thrais rhywiol yn Bwysig i Bawb

Yasmin Khan a Nazir Afzal OBE

**Cynghorwyr Cenedlaethol, Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd,
Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Awst 2019

Cyflwyniad

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorydd (Cynghorwyr) Cenedlaethol lunio adroddiad blynyddol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi.

Fe'n penodwyd ni, Nazir Afzal, OBE, ac Yasmin Khan i rannu swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ym mis Ionawr 2018. Dyma ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19 fel sy'n ofynnol.

Hoffem ddiolch unwaith eto i aelodau tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth a'u cymorth parhaus a chydabod eu cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddynt ddigon o staff am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Hoffem dalu teyrnged i gyn-Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC, am ei harweinyddiaeth ar y mater hwn hyd at ddechrau'r flwyddyn galendr ac rydym wrth ein bodd bod y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip presennol, Jane Hutt AC, wedi cefnogi'r maes gwaith hwn gan ddangos diddordeb ynddo ac ymrwymiad eithriadol iddo, yn seiliedig ar ei chyfranogiad dros ddegawdau yn y maes hwn.

Yn anad dim, hoffem ddiolch i'r lluo o ddarparwyr trydydd sector sy'n estyn cymorth difflino i ddiodefwyr a goroeswyr ac yn gweithio gyda chyflawnwyr.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 (y Ddeddf), yn ein barn ni, ymhlith cyflawniadau mwyaf Llywodraeth Cymru hyd yma, ac yn sicr, o ganlyniad iddi, gallwn ddatgan yn ddiamod bod Cymru yn gosod esiampl i weddill y DU ei dilyn. Mae'r cyflawniadau ers ei deddfu wedi cael cryn gyhoeddusrwydd, ond rhestrir rhai ohonynt isod.

Erys heriau sylweddol ac mae angen i ni barhau'n ymwybodol o faint yr heriau hynny. Mae diodefwyr yn dal i ddiodef niwed, yn dal i wynebu rhwystrau wrth sicrhau cyfiawnder a rhwymedïau, ac yn dal i gael eu hailfictimeiddio mewn sawl ffordd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i ymdrin â'r heriau hyn, a hynny'n briodol.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu ein hasesiad o sut mae Cymru yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod sy'n wynebu cam-drin domestig a cham-drin rhywiol a phob math o drais sy'n seiliedig ar rywedd, ac sydd mewn perygl o wynebu achosion o gam-drin a thrais o'r fath, a'u dileu. Mae'n deg dweud ein bod wedi pennu amcanion uchelgeisiol, a rhaid cynnal gwerthusiadau annibynnol o'r cynnydd yn eu herbyn; er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gweithio gyda diodefwyr a goroeswyr er mwyn canfod unrhyw fylchau a nodi sut y gallwn wireddu blaenoriaethau allweddol.

Cyflawniadau Llywodraeth Cymru

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 yn nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ei wneud i gyfrannu at ddiben y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r strategaeth yn amlinellu chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru yn anelu at eu cyflawni erbyn 2021.

Mae'n bleser gennym nodi cynnydd sylweddol o ran pob un o'r amcanion, yn arbennig ymgysylltu â goroeswyr ac, yn benodol, geisio diwallu anghenion grwpiau amrywiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer i'w wella o hyd ar gyfer y rheini sy'n wynebu risg o niwed; mae hyn yn cynnwys deall y risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed mewn ardaloedd gwledig a sut i ymateb i sensitifrwyddau diwylliant a chymunedau gwledig.

Rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau ledled Cymru yn hygyrch i bawb; helpu dioddefwyr a goroeswyr i gael gafael ar gymorth a sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr adnoddau a'r wybodaeth i weithredu; gwella ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r cymorth sydd ar gael; a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Ein nod yw sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau'n faes gwaith trawsbynciol sy'n gofyn am ymrwymiad gan holl adrannau Llywodraeth Cymru. Felly, rydym wedi cynnwys Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol lle y gellir nodi bylchau penodol o ran cyflawni amcanion Deddf 2015. Er ein bod yn ymwybodol o ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf, mae ein neges yn glir; nid un awdurdod sy'n gyfrifol am y mater hwn. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r ymatebion gan gyrrff cyhoeddus drwy wella ansawdd gwasanaethau a mynediad atynt, yn ogystal â thrawsnewid agweddau ac ymddygiad cymdeithas, ond rydym yn cydnabod na fydd y dasg hon yn hawdd. Rydym yn awyddus i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd eisoes er mwyn sicrhau y gallwn, gyda'n gilydd, ddiogelu a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr a chreu sector mwy gwydn.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyhoeddi ei Hadroddiad Cynnydd Blynyddol wedi'i ddiweddarau fel y bo angen. Mae'n ddogfen y dylid ei chanmol, yn hawdd i'w darllen ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019.

Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cydweithio â rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth a newid diwylliant, diogelu a chefnogi pobl sy'n wynebu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gweithio i'w atal yn y dyfodol. Mae ein diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnig ein hasesiad annibynnol o gynydd wrth roi Deddf 2015 ar waith.

Uchafbwyntiau a Blaenoriaethau

O fewn chwe amcan y Strategaeth Genedlaethol, rydym wedi nodi meysydd penodol sy'n enghreifftiau o arfer da, yn ein barn ni, ac rydym wedi nodi meysydd allweddol rydym yn awyddus i'w datblygu ymhellach.

Amcan 1 – Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru.

- Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch "Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn" rhwng 14 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019.

Nod yr ymgyrch yw dangos natur lechwraidd a chronnol rheolaeth; codi ymwybyddiaeth o reolaeth fel math o gam-drin domestig; ac annog pobl yng Nghymru i gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn i gael cyngor a chymorth. Roedd cam cyntaf ymgyrch "Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn" yn cynnwys hysbysebion cenedlaethol ar y teledu, cyfryngau digidol, cyfryngau cymdeithasol a chan ddefnyddio posteri a thafenni.

Mae data cynnar o linell gymorth Byw Heb Ofn yn awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau a gafwyd am reolaeth drwy orfodaeth o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Dengys canlyniadau digidol fod ffilmiau'r ymgyrch wedi cael eu gwyllo mwy na 120,000 o weithiau ar Facebook, Twitter a You Tube. Mae 56,000 o ddefnyddwyr wedi ymweld â'r wefan yn ystod y flwyddyn adrodd ac mae gan sianeli cyfryngau cymdeithasol Byw Heb Ofn bellach fwy na 4600 o ddilynwyr.

Amcan 2 - Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.

Cyflwynwyd 2,529 o sesiynau drwy raglen Sbectrwm Hafan Cymru yn ystod 2018-19. Cafodd cyfanswm o 31,761 o fuddiolwyr gymorth yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

Rydym yn awyddus i ganfod sut y gallwn roi'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith hwn ar waith, yn arbennig y gwaith cyfoedion a wnaed gyda phobl ifanc.

- Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar y Cwricwlwm a Threfniadau Asesu ar 28 Ionawr 2019 ar ffurf ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 25 Mawrth 2019.

Rydym wedi creu cysylltiadau â'r Comisiynydd Plant gyda'r bwriad o allu casglu data cyson ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ledled Cymru. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Ford Gron ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant er mwyn sicrhau y gallwn weithredu ar yr heriau a'r bylchau a nodir.

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru: Rydym yn ymgysylltu â'r Gweinidog Addysg a swyddogion o'i hadran i drafod y ffordd orau i'r cwricwlwm newydd ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn paratoi plant ar gyfer bywyd. Atal achosion sy'n allweddol o hyd i gael gwared ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae addysg yn greiddiol i hynny.

Rydym yn defnyddio arbenigedd i ymgysylltu â menywod a theuluoedd i ddarparu gwrth-naratif er mwyn sicrhau na fydd unrhyw achosion o gamgyfathrebu na chamddealltwriaeth ynghylch elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arfaethedig y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y cwricwlwm newydd. Yn y gorffennol, defnyddiwyd y rheini a oedd yn ystyried eu hunain yn arweinwyr cymunedol fel y prif ddull, ond bu ymdrechion o'r fath yn aml yn ofer. Bu ymdrechion i ymgysylltu â sefydliadau llawr gwlad, gan gynnwys sefydliadau anllywodraethol sy'n gweithio gyda menywod a theuluoedd, bob amser yn fwy llwyddiannus. Mae angen i ni annog pob rhan o'r Llywodraeth i feddwl yn yr un ffordd.

Amcan 3 - mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.

Lluniwyd Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac fe'u lansiodd ym mis Rhagfyr 2018.

Drwy ein cyfranogiad mewn gweithdai, wedi'u harwain gan swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi cefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig â rhaglenni i gyflawnwyr. Rydym yn cydnabod bod yn well gan nifer o grwpiau sy'n gweithio gyda goroeswyr weld ymdrechion yn cael eu hanelu tuag at oroeswyr, ond rydym yn sicr bod gan y gwaith hwn botensial sylweddol i atal unigolion rhag aildroseddu ac i amddiffyn dioddefwyr rhag cael eu cam-drin eto. Serch hynny, dengys tystiolaeth fod rhai rhaglenni yn fwy effeithiol nag eraill.

Amcan 4 – rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.

Mae rhaglen Gofyn a Gweithredu ar waith o hyd yn y pum safle mabwysiadwyr cynnar / peilot a chaiff bellach ei chyflwyno mewn ardaloedd â blaenoriaeth, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru. Cafodd dros 1,500 o weithwyr proffesiynol hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn ystod 2018-2019. Mae hyn yn golygu bod dros 3,300 o weithwyr wedi cael hyfforddiant hyd yn hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadeirio'r grŵp arweinyddiaeth ar anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod, ar y cyd â Bawso a Gwasanaeth Erllyn y Goron.

Mae amddiffyn menywod a merched rhag trais a helpu dioddefwyr a goroeswyr arferion diwylliannol niweidiol yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod wedi'u creu a'i bod bellach yn drosedd mynd yn groes i Orchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod, y gall dioddefwyr anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod bellach fod yn ddi-enw, bod trosedd newydd wedi'i chreu mewn perthynas â methu ag amddiffyn merch rhag achos o anffurfio

organau cenedlu benywod, bod yr awdurdodaeth alldiriogaethol dros droseddau anffurfio organau cenedlu benywod a gyflawnir dramor wedi'i hystyngi, a bod dyletswydd newydd wedi'i chyflwyno sy'n ei gwneud hi'n ofynnol rhoi gwybod am achosion o anffurfio organau cenedlu benywod.

Rhaid i ni sicrhau y caiff y rheini sydd mewn perygl eu cefnogi a byddwn yn parhau i ymdrin â'r achosion o niwed diwylliannol anghyfreithlon na roddir gwybod amdanynt, drwy weithio gydag asiantaethau arbenigol a thynnu sylw at y rhwystrau a wynebir ganddynt.

Amcan 5 – hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Mae dros 158,500 o weithwyr proffesiynol yng Nghymru wedi cael hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol hyd yma, sef cynnydd o dros 23,000 ar gyfer y cyfnod hwn.

Ym mis Hydref 2018, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gongtract i Safelives a Hafan Cymru iddynt ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr arbenigol, staff rheng flaen a'u rheolwyr.

Cwblhaodd 24 o ddysgwyr y cwrs Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a chwblhaodd 24 o reolwyr gwasanaeth y cwrs yn 2018-19.

Megis dechrau y mae'r gwaith o werthuso effaith yr hyfforddiant hwn, ond mae miloedd o weithwyr proffesiynol ac eraill wedi nodi ar lafar bod eu dealltwriaeth wedi gwella. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt allu nodi achosion yn gynharach ac o ganlyniad, leihau'r risg. Hoffem weld gwerthusiad mwy ffurfiol wrth i'r hyfforddiant barhau i gael ei ddarparu, a hoffem weld mwy o dderbynwyr yn ei ddefnyddio yn eu gwaith beunyddiol.

Amcan 6 – rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.

Dyfarnwyd dros £1 filiwn drwy Raglen Grant Cyfalaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 2018-19. Prif ddiben y rhaglen hon yw caffael neu gynnal a chadw ac uwchraddio asedau sefydlog fel adeiladau a chyfarpar i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Dyrannwyd bron i £155,000 o gyllid refeniw ychwanegol ym mis Tachwedd 2018 er mwyn helpu i ymdrin â rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau arbenigol ym maes trais rhywiol. Cafodd dros 2,000 o fuddiolwyr ledled Cymru gymorth i gael gafael ar wasanaethau trais rhywiol drwy'r cyllid hwn. Diolch i'r cyllid hwn, llwyddodd y sefydliadau trais rhywiol yng Nghymru i dreialu ffyrdd eraill o ymdrin â'r rhestrau aros, fel cwnsela sesiynol, therapi cryno yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, hyfforddiant ar waith grŵp gan ddefnyddio'r pecyn cymorth gwella, a therapïau eraill fel dosbarthiadau coginio a gwaith grŵp theatr er mwyn gwella llesiant cleientiaid a hyrwyddo cynhwysiant.

Strategaethau Lleol

Mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi cael yr holl strategaethau lleol y gofynnwyd amdanynt. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn nodi meysydd i'w gwella ac yn rhannu'r enghreifftiau o arfer da a ddeilliodd o'r broses o adolygu'r holl strategaethau lleol a'n hadborth gan randdeiliaid allweddol, y mae rhai ohonynt wedi codi materion gwahanol mewn perthynas â'u hadolygiadau mewnol. Rydym yn awyddus o hyd i sicrhau nad ymarfer "blwch ticio" yn unig yw'r strategaethau, ac y cânt eu cynnwys o fewn trefniadau busnes craidd.

Grŵp Cyllido Cynaliadwy

Diben y grŵp hwn, a gaiff ei gadeirio gan y Cynghorydd Cenedlaethol Yasmin Khan, yw ystyried opsiynau ar gyfer symud tuag at ddull gweithredu mwy rhanbarthol sy'n annog ac yn hwyluso mwy o gydweithredu rhwng partneriaid perthnasol ac yn cynnig y cyfle i ddefnyddio cyllid yn y dyfodol i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a bod yn fwy ymatebol i anghenion lleol.

Un o feysydd gwaith allweddol y grŵp yw datblygu'r egwyddorion a'r fframwaith ar gyfer model cyllido cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol ym maes Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n ystyried yr agenda ranbartholi.

Un o'r heriau allweddol yw sut y gallwn symud tuag at fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer darpariaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ymgynghorwyd ar ganllawiau statudol ar gomisiynu rhanbarthol. Eu prif nod yw annog penderfyniadau comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel a fydd, yn eu tro, yn darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chyson er mwyn atal achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol.

Yr her o hyd yw gweld sut y gellir rhoi hyn ar waith ac rydym wrthi'n nodi ardaloedd sy'n llwyddo i wneud hynny a byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Comisiynu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ac yn rhannu'r gwersi a ddysgir ledled Cymru.

Adolygiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Comisiynodd y Prif Weinidog blaenorol, Carwyn Jones, Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o allu ac adnoddau'r ddarpariaeth llochesi a llety presennol i ddiodefwyr. Ar adeg ysgrifennu, ni chyhoeddwyd yr adolygiad hwn. Rydym o'r un farn â'r Llywodraeth mai mewn argyfwng y dylid defnyddio llochesi, ac yn y rhan fwyaf o achosion mai'r canlyniad gorau fydd cadw diodefwyr yn ddiogel yn eu cartref, a symud y cyflawnwr oddi yno.

Yn yr un modd, comisiynodd y Prif Weinidog blaenorol adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol. Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y gwaith hwnnw wedi dechrau a chaiff ei gynnal ar ôl gorffen yr adolygiad o wasanaethau llety. Nodwyd gennym y llynedd ein bod yn pryderu am y gwasanaeth anghyson a'r safonau gwasanaeth amrywiol nad oeddent, yn ein barn ni, wedi llwyddo i ymdopi â'r cynnydd eithriadol yn nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau, ni waeth ble y byddwch, fod y gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl.

Dangosyddion Cenedlaethol

Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru gydag ymchwilyr cymdeithasol, arweinwyr polisi trawslywodraeth a rhanddeiliaid mewnol ac allanol eraill i ddatblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a fydd yn mesur cynnydd yn erbyn dibenion y Ddeddf. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Dangosyddion Cenedlaethol, a ddaeth i ben ar 29 Mawrth 2019. Bydd swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r dangosyddion, y mesurau a'r ffynonellau data ymhellach yn ystod 2019-20. Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith pwysig sy'n mynd rhagddo.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn brysur iawn ac mae hefyd wedi comisiynu Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol gydag arbenigwyr yn y maes hwn. Rydym wedi bod yn rhan o hyn, gan groesawu'r cam cyntaf a gyhoeddwyd ddiwedd y llynedd, ac edrychwn ymlaen at weld yr adolygiad yn cael ei gwblhau maes o law.

O'r diwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bil Cam-drin Domestig 2019 sydd bellach, wrth inni ysgrifennu hwn yn Awst, ar ei daith drwy'r senedd. Gwnaeth Llywodraeth Cymru sylwadau cynhwysfawr ar ddrafft cynharach a gwahoddwyd un o'r Cynghorwyr Cenedlaethol i roi tystiolaeth lafar i'r cyd-bwyllgor dethol seneddol a argymhellodd lawer o ddiwygiadau pellach. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r sylwadau a'r diwygiadau hyn yn y bil.

Cynllun Blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol 2019-20

Cyhoeddwyd ein Cynllun Blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn galendr ac roedd yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol iawn o amcanion y credwn yn gryf y byddant yn trawsnewid y tirlun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fodd bynnag, gwnaethom gamgymryd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer rhaglen mor uchelgeisiol, gwnaethom bennu rhai terfynau amser a oedd yn heriol tu hwnt ac mae llawer o'r amcanion yn gofyn am waith gan gyrff eraill sydd â therfynau amser sy'n golygu na allwn ni fodloni ein terfynau amser ni. Er enghraifft, gwnaethom ymrwymo i ymateb i'r adolygiadau a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog blaenorol o'r ddarpariaeth llochesi a gwasanaethau Trais Rhywiol, ond nid yw'r adolygiadau hynny yn cael eu cynnal ar yr un pryd, felly ni allwn ymateb iddynt ar yr un pryd.

Er bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud mewn perthynas â rhai amcanion, mae angen i ni ddysgu sut i reoli disgwyliadau. Wedi dweud hynny, caiff y rhan fwyaf o'r amcanion eu cyflawni yn ystod blwyddyn y Cynllun.

Heriau

1. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn dal i deimlo pwysau cyllido, ond yn ymdrin â chynnydd mewn atgyfeiriadau ar yr un pryd. Gellid gwella trefniadau cydweithio yn sylweddol er mwyn defnyddio adnoddau cyfyngedig yn well.

2. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn dal i ddibynnu ar gyllid gan y llywodraeth i raddau helaeth, gan nad oes ffynonellau cyllid eraill ar gael neu gan eu bod yn anodd cael gafael arnynt.
3. Mae gwasanaethau anghyson yn cael eu darparu i ddioddefwyr a goroeswyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
4. Gwasanaethau Trais Rhywiol sy'n dioddef waethaf o hyd o blith gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan wynebu cynnydd eithriadol yn nifer yr atgyfeiriadau heb dwf cymesur yn eu hadnoddau.
5. Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn cael effaith benodol ar ddioddefwyr a goroeswyr o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.
6. Rhoddir blaenoriaeth is i atal o hyd, o gymharu ag amddiffyn.
7. Mae Cynlluniau Strategol Awdurdodau Lleol yn amrywio'n sylweddol o ran eu hymateb i'r materion hyn, a gellid cydgysylltu'r broses o rannu arfer gorau yn well.
8. Gellid gwella'r effaith ar blant, fel dioddefwyr ac fel tystion yr effeithir arnynt gan Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn sylweddol.

Ymatebion

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu grŵp cyllido cynaliadwy wedi'i gadeirio gan Gyngorydd Cenedlaethol, sy'n ystyried sut i roi ateb hirdymor ar waith o ran cyllido gwasanaethau, ac sy'n cynnwys holl gomisiynwyr gwasanaethau o'r fath.
2. Byddwn yn craffu ar gynlluniau gweithredu strategaethau lleol er mwyn nodi arfer da ac arfer gwael a'u rhannu'n briodol.
3. Yn dilyn cais gennym, mae Llywodraeth Cymru wedi ailddechrau Grŵp Dysgu Cymru Gyfan sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn ystyried materion penodol a nodi camau gweithredu a fydd yn ymdrin ag amrywiaeth o heriau. Y thema gyntaf a gaiff ei hystyried fydd arferion niweidiol sy'n cael effaith anghymesur ar gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig.
4. Rydym yn gweithio'n agos gydag arweinydd Llywodraeth Cymru ar Raglenni i Gyflawnwyr er mwyn lleihau achosion o aildroseddu.
5. Rydym yn ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith ar blant.
6. Rydym wedi cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ac rydym yn helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, yn enwedig yr elfen addysg cydberthynas.
7. Rydym am ystyried synergeddau â'r gwaith a gynhelir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
8. Mae angen i ni ystyried sut mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gam-drin domestig er mwyn diogelu pobl hŷn yng Nghymru 2017 yn cael eu rhoi ar waith ar lefel leol.

Casgliad

Mae goblygiadau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ddifrifol. Yn hanesyddol, roedd dioddefwyr a goroeswyr yn cael cam ac nid oedd cymorth ar gael iddynt a allai olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Mae angen i

gamau atal fod yn rhan o'r broses ddiogelu, mae angen newidiadau dybryd. Nid oes gennym ffigurau cywir o hyd ar gyfer yr unigolion a'r teuluoedd hynny sy'n byw mewn ofn, yr effeithir arnynt gan drawma ac na allant weld bod unrhyw obaith iddynt.

Byddwn yn gweithio gyda chomisiynwyr, gwneuthurwyr polisi a gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr eu hystyried o ddifrif gan wneuthurwyr polisi a chomisiynwyr, a chan asiantaethau a gwasanaethau rheng flaen. Yn ystod ein cyfnod o dair blynedd yn y swydd, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar greu diwylliant o newid er mwyn sicrhau y gall dioddefwyr gael gafael ar help a chymorth ni waeth ble y maent yn byw na phwy ydynt.

Dylai Llywodraeth Cymru ymfalchïo yn ei chyflawniadau hyd yma ers cyflwyno Deddf 2015 ond mae bellach yn bryd ystyried yr hyn a wnaed a phenderfynu beth sydd angen ei wneud.

Mae gan sefydliadau'r trydydd sector ran hynod bwysig i'w chwarae. Maent yn darparu gwasanaethau na all unrhyw un arall eu darparu, ac yn aml yn gwneud hynny â chyllideb ceiniog a dimai. Byddwn yn gweithio gyda nhw i greu tirlun sy'n golygu na wrthodir help i unrhyw ddioddefwr.

Drwy addysg ac ymwybyddiaeth, gallwn ddileu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y dyfodol, ac mae angen cyflymu'r ymdrechion i wneud hynny, a chroesawu unrhyw ymdrechion o'r fath. Mae angen yr amser hwn arnom i ysgogi camau gweithredu i ddod â thrais yn erbyn menywod a merched ledled y byd i ben.

Nazir Afzal OBE ac Yasmin Khan
Cynghorwyr Cenedlaethol
Awst 2019